

Offrwm yr Adfent 2018 2-24 Rhagfyr

Croeso i'r casgliad hwn o adnoddau, y cewch ddewis o'u plith a'u defnyddio a'u haddasu ar gyfer gwasanaeth Offrwm yr Adfent, 2018. Mae'r nodiadau hyn ar gyfer yr arweinydd yn cynnwys:

1. Nodiadau ar y thema a ddewiswyd sef 'Cariad Sy'n Cynyddu' ac ar rannau perthnasol o'r Beibl, gan gysylltu'r rhain â'r Adfent ac â chynllun Open Doors yn Hull sef y prosiect Cenhadaeth ym Mhrydain sy'n cael sylw eleni.
2. Syniad ar gyfer sgwrs i bob oed.
3. Rhai gweddau a awgrymir ar gyfer gwahanol rannau o'ch gwasanaeth.
4. Rhai cwestiynau a awgrymir ar gyfer ymateb a myfyrio.
5. Gweithgareddau a syniadau creadigol i bob oed.
6. Awgrymiadau ar gyfer emynau.
7. Posibiliadau eraill ar gyfer cynnwys Emyn 731 Gariad dwyfol uwch pob cariad; llythyr John Wesley at William Wilberforce, a aned yn Hull; neu wybodaeth ac adnoddau pellach ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan y Cyd-dim Materion Cyhoeddus.

1. Nodiadau ar y thema a ddewiswyd a'r rhannau perthnasol o'r Beibl

1.1 Cariad Sy'n Cynyddu, a'r Adfent

- Cariad yw Duw a thrwy ddirgelwch y Drindod fe sylweddolwn nad rhywbeth disymud yw cariad – hyd yn oed o fewn y Duwdod. Mae'n llifo, yn symud ac yn gweithredu, gyda chydbwysedd perffaith rhwng derbyn a rhoi. Drwy ei fawr gariad, fe greodd Duw y ddynoliaeth i fod mewn perthynas â Duw ei hun ac â'i gilydd. Drachefn a thrachefn, fe'u galwodd yn ôl ac adfer y berthynas hon pryd bynnag y troesant i ffwrdd.
- Mae Ioan 3:16 yn dweud wrthym fod Duw y Tad wedi caru'r byd gymaint fel y rhoddodd ei unig anedig Fab. Daeth y cariad dwyfol i'n plith. Cariad *wedi'i ymgnawdoli* yw'r Iesu – yn yr ystyr ddiwinyddol fod Duw wedi dod a thrigo yn ein plith ac yn yr ystyr ei fod yn ymgorffori hanfod a mynegiant llawnaf cariad. Roedd popeth a wnaeth yr Iesu, pob risg a gymerodd a phob aberth a wnaeth, yn tarddu o gariad Duw, yn canoli ar y cariad hwnnw ac yn llifo ohono drwy ymgnawdoliad, gweinidogaeth, dysgeidiaeth a gwyrthiau'r Iesu, ac yn y pen draw drwy'r Groes, yr Atgyfodiad a'r addewid y daw drachefn. Mae hyd yn oed yr oedi cyn cyflawni'r addewid y daw ailddyfodiad Crist yn dangos cariad Duw a'i ddyhead i fwy o bobl droi'n ôl at Dduw (2 Pedr 3:9).
- Yn ystod yr Adfent, byddwn yn olrhainio'r amser yn arwain at enedigaeth Iesu, er mwyn bod yn barotach i dderbyn ei bresenoldeb gyda ni yn awr; ymrwymwn eto i'w groesawu'n llawnach i'n plith.



Edrychwn hefyd i'r dyfodol pan ddaw drachefn; paratown ar gyfer hynny drwy adael i'r cariad a welwn yn ei esiampl a'i ddysgeidiaeth ein bwrw oddi ar ein hechel. Fel dilynwyd iddo, fe'n

gelwir ninnau i fyw bywydau lle mae cariad yn cynyddu, gan rannu'n hael bopeth sydd gennym a chroesawu eraill fel y cawsom ni ein croesawu.

1.2 1.2 Nodiadau ar y darlleniadau o'r Beibl a ddewiswyd

Philipiaid 1:3-11 – darlleniad sy'n sail i'r gwasanaeth (un o'r darlleniadau yn y llithiadur ar gyfer 9 Rhagfyr)

- Yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'n thema ar gyfer Offrwm yr Adfent yw adnodau 9-10, lle mae Paul yn gwedd o ar i gariad yr eglwys yn Philipi "gynyddu fwyfwy eto" mewn gwybodaeth a phob dirnadaeth, er mwyn ichwi allu cymeradwyo'r hyn sy'n rhagori, a bod yn ddidwyll a didramgwydd erbyn Dydd Crist". Fe ddywedir yma mai cariad yw ffynhonnell pob gweithred dda ac sy'n peri i bobl fyw'n briodol, yn unol â dysgeidiaeth yr Iesu ynghylch y gorchymyn mwyaf (Luc 10:27) ac ysgrifeniadau eraill Paul (e.e. 1 Corinthiaid 13).
• Mae bywyd Paul ei hun yn tystio i'r cariad a dderbyniodd yn rhad ac a rannodd yn rhad:
◦ Ar y ffordd i Ddamascus fe gyffyrddodd Duw â Paul, a fu'n erlid yr Iddewon a ddaethai i gredu yng Nghrist. Yna, anfonwyd un o'r rhai a erlidiwyd i groesawu Paul fel "brawd" (Actau 9:17).
◦ Trwy Paul, fe gynyddodd cenhadaeth yr Eglwys Fore gan gyrraedd nid yn unig yr Iddewon ond hefyd y cenedl-ddynion.
◦ Y rhai anghenus oedd bob amser agosaf at galon Paul ac felly hefyd yr holl Eglwys Fore. Daethai'r credinwyr newydd yn enwog am ufuddhau i'r gorchymyn newydd a gawsant gan yr Iesu (Ioan 13:35) sef caru ei gilydd (Actau 4:32-37). A phan aeth Paul i ymweld â'r apostolion a oedd yn rhan o'r Eglwys o'i flaen ef, dywedasant wrtho am "gofio'r tlodion": atebodd ei fod eisoes "wedi ymroi" i wneud hynny (Galatiaid 2:10).
◦ Arweiniodd cariad cynyddol Paul at Grist ef i gychwyn ar deithiau cenhadol peryglus dro ar ôl tro. Talodd bris uchel er mwyn estyn croeso Iesu Grist at eraill. Parhaodd hefyd i gynyddu mewn cariad at y cymunedau y bu'n ymweld â hwy...ac o ganlyniad, bu i ninnau etifeddu'r llythyrau sydd yn parhau i oleuo cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o gredinwyr.
• Yn y llythyr hwn, mae Paul yn ysgrifennu at ffrindiau; pobl y mae'n falch ohonynt oherwydd eu bod yn byw'r Efengyl. Dywedir yn aml mai'r llythyr at y Philipiaid yw'r mwyaf llawen o lythyrau Paul – dim syndod, oherwydd bob tro y bydd yn meddwl am y bobl hyn mae'n ymhyfrydu yn eu tystiolaeth i Grist a'u cefnogaeth iddo yntau yn ei dystiolaeth. Ond mae Paul hefyd yn gwedd o am ddatblygiad pellach. Mae cariad Crist yn ddi-hysbydd; gan hynny, mae'n gwedd o am fwy o gariad. Mae'n "sigr" (adnod 6) y bydd Duw'n cwblhau'r gwaith y mae wedi ei ddechrau yma. Er hynny, fe yr, er mwyn bod yn "ddidramgwydd" pan ddaw Crist drachefn, y bydd angen iddynt barhau i ddibynnu ar y cariad helaeth a di-hysbydd hwnnw, ffynhonnell a nerth Iesu Grist, a ddaw iddynt a thrwyddynt drwy'r Ysbryd Glân.
• Fel Paul a'r Philipiaid, mae'n rhaid i ninnau barhau i dderbyn cariad gan Dduw yng Nghrist, a'i roi wedyn i eraill drwy ei nerth ef. Ceisiodd John Wesley yntau ddilyn y patrwm hwn. Cynyddodd ac ymestynnodd ei genhadaeth a'i weinidogaeth yn sgil ei dröedigaeth, pan deimlodd ei galon "yn cael ei chynhesu'n

Yr Eglwys Fethodistaidd





rhyfeddol". Trodd y sicrwydd mewnol yn alwad allanol, i gasglu mwy o bobl i mewn.

- Trwy gyfrwng Offrwm yr Adfent, fe'n gwahoddir ni oll, gyda'r Cyfundeb Methodistaidd cyfan, i fod yn gefn i Open Doors a'r holl brosiectau rhyfeddol eraill sy'n cael eu cefnogi gan Gronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain, a hefyd i uniaethu â'u cenhadaeth. Cawn ddathlu a diolch i Dduw eu bod yn tystiolaethu mor wych i

gariad Crist; gwedd o a chyfrannu fel y bydd eu gwaith yn cynyddu fwyfwy; a derbyn yn llawen y gwahoddiad a'r her y mae eu hesiampl yn ei roi i ni. A wnawn ninnau groesawu'r dieithryn a gofalu am y tlawd ble bynnag rydym ni, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym? Wnawn ni, fel rhai sy'n adnabod yr Iesu, roi blaenoriaeth i bobl anghenus yn unol â'i ddysgeidiaeth yn Mathew 25:31-46?

Rhannau eraill o'r Beibl yr awgrymir eu defnyddio

Seffaneia 3:14-20 (o'r darlleniadau yn y llithiadur ar gyfer 16 Rhagfyr)

- Llwenydd sy'n ganolog i'r darlleniad hwn hefyd, wrth i'r proffwyd ganu i ddathlu'r achubiaeth sydd i ddod. Pa newydd gwell na bod yr Arglwydd ein Duw "yn ein canol" (adnod 17)? Ond mae dwy bennod gyntaf llyfr Seffaneia yn canolbwyntio bron yn llwyr ar bechod y bobl a barn Duw sydd i ddod. Pan fydd yr Arglwydd yn ein canol, mae ei gariad yn sicr yn cynyddu fwyfwy. Ond felly hefyd ein hymwybyddiaeth o'i sancteiddrwydd, mai Duw ydyw sy'n unioni popeth fel y caiff pawb ffynnu. Daw llwenydd ac adferiad yn *dilyn* edifeirwch a maddeuant.
- Yn adnod 14, mae'r proffwyd yn rhoi llais i neges gan Dduw sy'n personoli Israel fel merch sydd â pherthynas agos â Duw. Dyma ddelwedd sydd i'w gweld dro ar ôl tro yn yr Hen Destament ac mae'n pwysleisio fod Duw'n siarad am bechod cymdeithas a sefydliadau yn ogystal â phechod yr unigolyn. Mae'r proffwydi'n dweud drachefn a thrachefn mai Duw y gwrthodedig yw Duw; dyna a welwn gan Seffaneia yn adnod 19 yma. Mae Duw yn gweld camdriniaeth neu ddiffyg gofal tuag at y dieithryn yn bechod, sy'n golygu bod defosiwn ymddangosiadol yn ddiwerth (gweler Esea 58:4-13 ac Amos 5:21-24).
- Mae hyn yn adleisio profiad a dysgeidiaeth Paul: fe'n gelwir i dderbyn a rhoi'r croeso a'r adferiad sydd i'w cael yng nghariad Crist. Oes, mae gennym rywbeth i ganu amdano! Ond ar yr un pryd mae gennym rywbeth i'w rannu; nid ar ein cyfer ni yn unig y mae llwenydd o'r fath, ond ar gyfer pawb.
- Yr Adfent hwn, wrth inni lawenhau yn yr achubiaeth a ddaeth i ni drwy Grist ac a ddaw yn llawnach yn ei ailddyfodiad, mae'n rhaid inni hefyd ein holi ein hunain a fydd yr Iesu – a phobl eraill – yn ein hadnabod ni fel pobl Dduw oherwydd ein tebygrwydd iddo: i ba raddau rydym ninnau'n "casglu'r rhai gwasgaredig" (adnod 19)?
- Gall esiampl Open Doors, Hull, ein hysbrydoli yn ein cenhadaeth leol ac ar yr un pryd cawn fod yn rhan o'u cenhadaeth hwythau yno. Fe welir yma groeso cynnes, hael i'r dieithryn. Ac o ystyried amgylchiadau truenus llawer o'r rhai a ddaw yma, ac agwedd llawer o bobl yn y Deyrnas Gyfunol tuag at geiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr, mae hyn yn golygu croeso cynnes, hael i'r gwrthodedig a'r rhai sy'n agored i niwed. Yng ngeiriau Jayne Mercer, sy'n gweithio i'r Groes Goch Brydeinig, nid oes dim

Yr Eglwys **Fethodistaidd**





byd arall yn Hull “yn cynnig y math o awyrgylch sydd yn y fan hyn”. Awyrgylch yn llawn o'r cariad sy'n cynyddu.

Luc 3:7-18 (o'r darlleniadau yn y llithiadur ar gyfer 16 Rhagfyr)

- Drwy gymeriad a gweinidogaeth loan Fedyddiwr, cawn ein hatgoffa yn ddigamsyniol o'r modd y gall croeso a chariad sy'n cynyddu aflonyddu arnom.
- Dywedir yn y bennod hon fod loan yn “cyhoeddi'r newydd da” (adnod 18) ond mae'n dechrau (adnod 7) gyda chondemniad o'r math na glywir o enau'r Iesu heblaw ar gyfer y Phariseaid. Nid yw galwad i edifarhau bob amser yn teimlo fel newyddion da. Ond dyna ydyw. Mae edifeirwch yn golygu ein bod yn iawn unwaith eto gyda Duw a phobl eraill – fel unigolion ac fel cymdeithas. Mae byw yn dda yn newyddion da i *bawb*.
- Mae'r math o edifeirwch sydd ei angen yn amrywio o'r naill unigolyn i'r llall:
 - mae'n rhaid i'r crefyddol ymysgwyd o'u hunanfodddhad ac edrych o'r newydd ar eu bywydau (adnodau 7-9)
 - mae'n rhaid i'r casglwyr trethi roi'r gorau i gronni cyfoeth a rhannu'r hyn sydd ganddynt â'r rhai sydd mewn angen (adnodau 12-13).
 - dylai'r milwyr roi'r gorau i ddefnyddio eu safle i gymryd mantais ar y gwan (adnod 14).

Beth ddylai pob un ohonom ni ei wneud yr

Adfent hwn er mwyn edifarhau?

- Mae'n hawdd ein pellhau ein hunain oddi wrth loan Fedyddiwr a'i neges, a'r bobl yr oedd yn eu cyfarch, neu feddwl ei fod rywsut yn fwy llym na'r Iesu. Ond mae adnodau 16-17 yn ein hatgoffa fod un yn dod sydd yn burach a mwy nerthol fyth. Mae safonau Iesu Grist yn uwch na safonau loan Fedyddiwr. Felly hefyd y safonau a osododd John Wesley, efallai. Meddai ef yn ei bregeth ar Beryglon Cyfoeth:

“Oni wyddoch fod Duw wedi ymddiried yr arian hwn i chi (popeth sy'n fwy na'r hyn sydd ei angen i brynu angenrheidiau bywyd i'ch teuluoedd) er mwyn bwydo'r newynog, dilladu'r noeth, helpu'r dieithryn, y weddw, yr amddifad; ac, yn wir, i'r graddau y gall wneud hynny, er mwyn lleddfu angen y ddynoliaeth gyfan? Sut y gallwch chi, sut y meiddiwch chi, amddifadu'r Arglwydd drwy dwyll, wrth i chi ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall?”

- Pan ddaw ceiswyr lloches a ffoaduriaid yno, mae'r croeso cynnes a gânt yn Open Doors, Hull, yn groes i bob disgwyl a dyna sy'n eu taro'n syth. Nid oes croeso fel hyn fel rheol yn ein cymdeithas ni. Yma mae bwyd, dillad, arbenigedd a chyfeillgarwch yn cael eu rhannu o'r galon. Yma mae cariad yn cynyddu fwyfwy, yn enw'r Iesu.

Rhannau o'r Ysgrhythur sy'n sôn yn arbennig am groeso

Gallech gynnwys yn ogystal â'r prif ddarlleniad un neu ragor o ddarlleniadau sydd yn edrych ar thema croeso, yn lle darlleniadau eraill o'r llithiadur. Mae'r nodiadau isod yn cyfeirio at rai darlleniadau a all fod yn ddefnyddiol gyda *Chariad Sy'n Cynyddu* ac esiampl Open Doors, Hull.

Yr Eglwys  **Fethodistaidd**





• **Genesis 18:1-18**

Mae Abraham yn sylweddoli bod yr Arglwydd yn bresennol pan gaiff ymweliad gan y tri dieithryn, ac mae'n rhoi pob gwyn ar waith i gynnig iddynt y math o letygarwch oedd yn arferol yn y Dwyrain Canol. (Cyfeirir at yr hanes hefyd yn **Hebraid 13:1-3**, yn yr alwad brydferth i fod yn lletygar. Mae cyswllt rhwng y thema hon a'n thema ni sef cariad sy'n cynyddu.)

• **Deuteronomiwm 10:12-22**

Daw'r gorchymyn i groesawu'r dieithryn a gofalu am y tlodion (neu'r amddifad a'r weddw) dro ar ôl tro ym Mhum Llyfr Moses a llyfrau'r Proffwydi. Ond mae'r adnodau hyn yn ei leisio'n arbennig o gryf, gan ddweud mai gwraidd a hanfod y gyfraith yw agwedd y galon (adnod

18), cymeriad Duw ei hun (adnodau 17-18) a'r profiad a ddaeth i ran pobl Dduw (adnod 19).

- Mae llawer o hanesion yn yr Efengylau am weinidogaeth yr Iesu i bobl wrthoddedig. Ynddynt gwelwn yn aml mewn modd pwerus ei gariad mawr sy'n dymchwel gwrthfuriau. Ond mae **Luc 10:38-42** hefyd yn gyfle, yn ddiddorol iawn, i fyfyrion ar bwysigrwydd y sylw a roddwn i Dduw ac i bobl wrth eu croesawu.
- Mae damhegion yr Iesu am y Samariad trugarog yn **Luc 10:25-37** a'r defaid a'r geifr yn **Mathew 25:31-46** yn cynnwys ei alwadau mwyaf heriol i groesawu'r dieithryn ac estyn allan gan roi cymorth hael ac ymarferol i bawb sydd mewn angen, waeth beth fo eu cefndir.

2. Sgwrs i bob oed – Croesawu Iesu Grist

Bydd arnoch angen: mat croeso, glôb neu fap o'r byd a thebot.

- Gofynnwch i bawb ddychmygu bod rhywun arbennig iawn yn dod i ymweld â'u cartref. Beth maen nhw am ei wneud cyn i'r person yma ddod? Wedyn, pan fydd wedi cyrraedd, sut fydd pawb yn dangos croeso?
- Gwahoddwch un neu ddau o bobl i rannu eu syniadau.
- Crynhowch beth sydd ei angen i **roi croeso cynnes** sef:
 - **paratoi eich cartref** drwy lanhau a thacluso
 - **rhoi sylw** i'r ymwelydd, gan wrando arno ac ymateb i'r hyn y mae'n ei ddweud
 - **gofalu am ei anghenion corfforol** drwy fod gartref pan gyrhaedda; ei annog i wneud

ei hun yn gartrefol; cynnig bwyd a diod da; gwneud yn si r ei fod yn gwybod ble mae'r ystafell ymolchi.

- *Gosodwch y mat croeso i lawr.*
- Eglurwch fod yr Adfent yn golygu mwy na dim ond paratoi i ddathlu'r Nadolig. Pwrpas yr Adfent yw paratoi i groesawu'r Iesu'n llawnach i'n calonnau a'n bywydau.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn ni'n:

- **gwneud mwy o le** drwy glirio allan beth bynnag sy'n ein rhwystro rhag treulio amser gyda Duw, neu gael gwared â'r annibendod diflas
- **talw sylw** gan wrando'n ofalus ar yr hyn sydd gan yr Iesu i'w ddweud ac ymateb drwy newid pethau fel y bydd Ef yn teimlo'n fwy cartrefol; mae hyn yn gallu bod yn ddigon



Yr Eglwys **Fethodistaidd**



anodd oherwydd gall yr Iesu fod yn ymwelydd eithaf anarferol, sy'n aflonyddu arnom.

- **rhoi croeso iddo yn gorfforol** drwy groesawu pobl sydd heb ffrindiau yma neu sydd angen cymorth ymarferol, oherwydd fe ddywedodd mai dyna sut y mae'n hoffi cael ei groesawu.
 - Mae'r tîm yn Open Doors, Hull, wedi dod yn arbenigwyr ar gynnig y math hwn o groeso:
 - Mae Open Doors yn cael ei gynnal mewn capel Methodistiaidd. Pan gyrhaeddwch, mae'n edrych yn lle braf ond digon cyffredin. Pan ewch i mewn, cewch eich rhyfeddu!
 - *Daliwch y glôb neu'r map i fyny, yna ei roi ar y mat croeso.*
 - Bob wythnos, mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn Open Doors yn croesawu cannoedd o bobl o 60 o wahanol wledydd o bob cwr o'r byd, sydd wedi dod i'r Deyrnas Gyfunol am nad oedd yn ddiogel iddynt aros lle cawsant eu geni.
 - Mae rhai o'r bobl hyn heb ddim byd, bron. Mae arnynt wir angen lle cynnes gyda bwyd da, diod a dillad newydd neu arian i'w helpu yn eu hargyfwng. A chan eu bod yn newydd i Brydain, mae ar lawer ohonynt angen cyngor, gwersi Saesneg neu gymorth i gwblhau ffurflenni. Mae arnynt i gyd angen cyfle i gael tipyn o hwyl hefyd yng nghwmni pobl eraill, yn enwedig os ydynt yn unig.
 - Mae Open Doors yn cynnig yr holl bethau hyn iddynt, gan ddechrau drwy groesawu pob un yn gynnes, fel petai y person pwysicaf yn y byd – eu croesawu fel petaent yn Iesu ei hun.
 - Mae gwasanaeth Offrwm yr Adfent heddiw yn rhoi cyfle i ni wedd o dros Open Doors a rhoi cyfraniad ariannol tuag at y gwaith hwn a phrosiectau eraill ardderchog sydd gan y Genhadaeth ym Mhrydain. Mae hefyd yn gyfle inni feddwl sut rydym ninnau'n croesawu pobl eraill.
- *Daliwch y tebot i fyny, yna ei roi wrth ymyl y glôb neu'r map ar y mat croeso.*
 - Eglurwch fod tebot yn cynrychioli croeso, gan byddwn yn cynnig paned i groesawu pobl! Gallwch ddod yn ôl at y darlleniad o lythyr Paul at y Philipiaid, hefyd:
 - Wrth ysgrifennu at yr eglwys hon yn Philipi (sydd yn awr yng ngwlad Groeg) mae'n gwedd o y bydd eu cariad yn cynyddu fwyfwy, fel y byddant yn cael eu llenwi â chariad yn ddi-baid ac yn arllwys y cariad hwnnw allan.
 - Cofiwn y bydd angen gwagu a glanhau'r tebot ar ôl ei ddefnyddio, fel y gallwn ei ail-lenwi dro ar ôl tro â the ffres a d r poeth, glân, er mwyn rhoi paned ar ôl paned i bawb. Yn yr un modd, mae angen glanhau ein bywydau, i'w hail-lenwi â chariad cynnes, croesawus Crist y gallwn ninnau ei rannu â phawb sydd mewn angen.





3. Gwedd au i'w defnyddio

Gallwch ddefnyddio neu addasu'r gwedd au hyn ar gyfer gwahanol rannau o'ch gwasanaeth.

Gweddi wrth ymgynnull

Arweinydd: Dewn ynghyd heddiw am fod inni groeso;
Oherwydd gadawodd ein Harglwydd nef y nefoedd i ddod atom.

Pawb: Diolchwn i ti, Arglwydd, am iti ein croesawu i'th bresenoldeb.

Arweinydd: Dewn ynghyd i fwynhau presenoldeb Duw oherwydd nid dieithriad mohonom mwyach; cawsom ein croesawu fel cyfeillion, drwy ei gariad helaeth ef.

Pawb: Diolchwn i ti, Arglwydd, am ein galw yn gyfeillion.

Arweinydd: Dewn ynghyd i ymrwymo o'r newydd i groesawu pawb i'r gymdeithas eang sydd heb derfyn, cymdeithas Duw; boed i ni ddysgu caru yn debycach iddo ef, yr Un a ddaw drachefn un dydd.

Pawb: Gofynnwn i ti ein dysgu a'n newid, O Arglwydd Iesu, Gariad ymgawdoledig, Gariad atgyfodedig, Gariad a ddaw drachefn, ein Brenin.

Gweddi o addoliad a diolch

Pa le pa fodd dechreuaf
foliannu'r Iesu mawr?
Olrheiniu'i ras ni fedraf,
mae'n llenwi nef a llawr.

Gwyddom, Arglwydd, nad geiriau mawreddog,
Nad moliant nefolaidd,
Ond calonnau gostyngedig yr wyt ti yn dymuno eu cael,
a bywydau lle mae cariad a chroeso i'w gweld ar gynnydd.

Dewn ger dy fron yn awr, i ddiolch i ti am ddod i'n plith.
Mawrygwn dy enw am iti addo dod drachefn.
Pa le, pa fodd dechreuaf fynegi dy glod? Diolch i ti am ein caru,
am ein croesawu yn helaethrwydd dy ras, yn dy enw sanctaidd. **Amen.**

Yr Eglwys  **Fethodistaidd**





Gweddi o gyffes

Arglwydd Iesu, gariad ymgnawdoledig,
cyffeswn mor rhwydd yr anghofiwn
faint dy aberth drosom a'th ddirfawr ddioddefaint
er mwyn ein croesawu ni yn ôl i gymdeithas â Duw.
Helpa ni i gofio ac anrhydeddu'r hyn a wnaethost, y pris a dalaist
er mwyn i ni allu bod gyda thi eto,
ac arwain ni wrth inni baratoi ar gyfer dy ddyfodiad drachefn
drwy wneud mwy o le i ti a'th flaenoriaethau di
yn ein calonnau ac yn yr hyn a wnawn yn ein bywydau.

Arglwydd Iesu, gariad ymgnawdoledig,
cyffeswn mor barod ydym ni i wneud esgusodion;
dewiswn beidio â rhannu neu fe'i gwelwn yn ormod o drafferth
croesawu dieithriaid neu helpu pobl mewn angen.
Llanw ni â'th gariad helaeth
sy'n barod i dalu'r pris er mwyn gofalu bod anghenion pawb yn cael eu diwallu.
Arwain ni wrth inni baratoi ar gyfer dy ddyfodiad drachefn
drwy wneud mwy o le i eraill a'u hanghenion
yn ein calonnau ac yn yr hyn a wnawn yn ein bywydau. **Amen.**

Gweddi dros waith Open Doors, Hull

Arglwydd Iesu Grist, deawn ger dy fron heddiw i rannu yn dy lawenydd di yn Open Doors.
Diolch fod y prosiect yma'n dangos dy gariad di yn helaeth iawn
wrth iddo weini ar ddieithriaid gan eu trin fel ffrindiau, yr hyn sydd wrth fodd dy galon.

Rho nerth i'th ffrindiau annwyl yma, Arglwydd,
wrth iddynt barhau i wneud dy waith di, yn dy enw.

Cynydda'r rhoddion da a ddaw i'w rhan o'th law
fel y gallant barhau i groesawu pobl y byd dros eu rhiniog.

Aros gyda nhw bob amser, ym mhob rhan o'u gwaith
wrth iddynt drosi cariad yn gymorth ymarferol a chreu cysylltiadau
y gall pawb sy'n dod trwy'r drysau agored i chwilio am gymorth
eu deall a'u derbyn. **Amen.**

Yr Eglwys  **Fethodistaid**





Gwedd au o eiriolaeth ar gyfer pob oed

Bydd arnoch angen: mat croeso, tebot, glôb neu fap o'r byd, plât offrwm ac, yn ddelfrydol, pedwar o bobl i arwain fel y bydd nifer y rhai sy'n arwain y weddi yn cynyddu'n raddol (ond mae hefyd yn bosibl i un person ddarllen y cyfan).

Mae'r arweinydd cyntaf yn dechrau trwy osod y mat croeso i lawr o'i flaen:

Diolch i ti, Arglwydd Iesu, am ein caru gymaint fel y daethost i lawr o'r nef i fyw yn ein mysg. Diolch dy fod yn dy gariad pur wedi byw a marw i wneud pethau'n iawn rhyngom ni a Duw.

Diolch i ti ein bod ninnau, drwot ti, yn cael ein croesawu i bresenoldeb Duw.

Mae'r arweinydd cyntaf yn camu ar y mat croeso sydd o'i flaen ac yn gwedd o:

Yr Adfent hwn, helpa ni i gamu'n nes eto atat ti, Arglwydd; i'th groesawu'n well i'n plith, ac i groesawu hefyd y newid y mae arnat ti eisiau ei weld ynom, fel y byddwn yn debycach i ti, hyd yn oed pan fydd hyn yn anodd.

Yna daw'r ail arweinydd â'r tebot ymlaen, gan wedd o:

Helpa ni i gofio, Arglwydd Iesu, dy fod ti'n ein llenwi â chariad a rhoddion da, fel y gallwn rannu'r rhain ag eraill sydd mewn angen.

Diolch am staff a gwirfoddolwyr Open Doors ac am yr holl ffyrdd y maent yn arllwys allan dy gariad di er mwyn pobl anghenus yn Hull, sydd yn cyrraedd yno o bob cwr o'r byd.

Llanw'r rhai sy'n gweithio yn Open Doors â mwy a mwy o gariad a rhoddion da fel y byddant yn ymestyn allan fwyfwy; a helpa nhw i gofio mai dychwelyd atat ti sydd ei angen bob amser, i'w hadnewyddu â gras.

Daw'r trydydd arweinydd â'r glôb neu'r map o'r byd ymlaen, gan wedd o:

Arglwydd Iesu, cofiwn ger dy fron bawb sy'n byw yn awr yng ngwledydd Prydain ac a ddaeth yma o rannau eraill o'r byd, yn enwedig y rhai y bu'n rhaid iddynt adael eu gwlad oherwydd bod yr amgylchiadau yno yn ddychrynlyd. Gwedd wn am heddwch a newid er gwell yn y gwledydd hynny oedd yn arfer bod yn gartref iddynt, ac am heddwch yn ein gwlad ninnau fel y bydd yn gartref gwell a mwy croesawus ar eu cyfer.

Dyro i dy eglwys yma gariad sy'n cynyddu, i gynnwys nid yn unig y bobl rydym ni'n eu hadnabod. Helpa ni i garu eraill gyda chariad tebycach i'th gariad di, sydd yn croesawu pob un ohonom fel ffrind.

Daw'r pedwerydd person â'r plât offrwm ymlaen, gan wedd o:

Arglwydd Iesu, deunw ger dy fron i'n hoffrymu ein hunain a'r rhoddion da a ddaeth o'th law. Helpa ni i'w hoffrymu yn ôl i ti. Helpa ni i gynyddu mewn cariad tuag at eraill. Dangos i ni yn ein calonnau, ym mha fodd yr wyt ti yn gofyn i bob un ohonom gefnogi Open Doors a'r Genhadaeth ym Mhrydain.

Gwyddom fod arnom angen dy gymorth er mwyn caru pobl yn well; llanw ni hyd yr ymylon ac arllwys ni allan, pa le bynnag a pha fodd bynnag yr ewyllysi. **Amen.**

Yr Eglwys  **Fethodistaidd**





Gweddi dros yr holl geiswyr lloches a'r ffoaduriaid sydd yng ngwledydd Prydain heddiw

Arweinydd: Diolch i ti, Arglwydd, fod pob stori yn hysbys i ti, dy fod di yn bresennol ar bob taith, yn deall pob trawma a fu yn y gorffennol a phob poen ac angen sydd yn awr yng nghalonau'r rhai yn ein plith sy'n chwilio am loches rhag y peryglon yn y manau hynny yr arferent eu galw'n gartref. Diolch i ti, sy'n eu caru ac yn gwyllo drostynt beunydd.

Pawb: Tyrd yn glau, Arglwydd, yn dy fawr gariad, at y dieithriaid yn ein plith. Boed iddynt, drwom ni, dderbyn croeso helaeth.

Arweinydd: Gwedd wn dros bob ceisiwr lloches sy'n poeni am ei gais neu ei ap I, pawb sy'n ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd tra'n aros am newyddion; pob ffoadur sy'n hiraethu am ei deulu a'r rhai a adawodd deulu ar ôl gan mai dyna oedd pris eu diogelwch. Gwedd wn dros bawb sydd yn ei chael yn anodd deall ein diwylliant neu'n hiaith; y rhai sy'n teimlo nad oes croeso iddynt, sy'n ofnus neu ar eu pennau'u hunain. Ymbiliwn arnat dros bawb sydd yn cael ei lethu gan ein systemau, ac yn arbennig dros y rhai anghenus sy'n wynebu amheuaeth

Pawb: Tyrd yn glau, Arglwydd, yn dy fawr gariad, at y dieithriaid yn ein plith. Boed iddynt, drwom ni, dderbyn croeso helaeth.

Arweinydd: Hiraethwn am y dydd y rhoddir gwell croeso i bawb a ddaw i'n gwlad; am broses gyfiawn a theg, yn rhydd o amheuaeth sinigaidd; am benderfyniadau yn seiliedig ar gariad ac a weinyddir â pharch a charedigrwydd, gan gydnabod urddas pob unigolyn gwerthfawr. Gwedd wn ar i ti ein cynorthwyo i frwydro dros y cyfiawnder hwn. Bydd gyda ni yn y croeso yr erfyniwn arnat i'n helpu ni i'w ddangos. Gad i ni dy adnabod di a'th fendithio ym mhob ceisiwr lloches a ffoadur

Pawb: Tyrd yn glau, Arglwydd, yn dy fawr gariad, at y dieithriaid yn ein plith. Boed iddynt, drwom ni, dderbyn croeso helaeth





Gweddi bersonol

Arglwydd Iesu, gariad ymgnawdoledig,
sut y gallaf fyth ddiolch digon i ti
am y pris a dalaist
er mwyn fy nghroesawu i'th wyddfod?
Arglwydd Iesu, gariad ymgnawdoledig,
helpa fi i gofio iti ddweud
pan fyddaf yn croesawu'r dieithryn, fod hyn yn dod â bendith i ti,
wrth i'm cariad gynyddu gan ddangos dy gariad di tuag at y rhai anghenus. **Amen.**

Gweddi arbennig wrth offrymu Offrwm yr Adfent eleni

Gallech ddefnyddio tebotiau gwag heb y caeadau yn lle'r platiau casglu arferol, fel ffordd lawen o helpu pobl i gysylltu'r offrwm â chynnig croeso.

Arglwydd Iesu Grist,
gariad ymgnawdoledig, gariad helaeth,
diolch i ti dy fod trwy dy Ysbryd
yn symud ynom, trwom a thu hwnt i ni.

Helpa ni i roi yn rhad fel y bu i ninnau dderbyn,
Gwna bob un ohonom yn offeryn dy gariad helaeth di dy hun.

Derbyn y rhoddion hyn, a ddaw oddi wrthyt ti ac a ddychwelwn ninnau i ti.
Boed iddynt gael eu defnyddio i wasanaethu dy deyrnas;
boed iddynt gael eu trawsnewid yn gymorth a chariad ymarferol
fel y bydd dieithriaid yn cael eu croesawu fel ffrindiau
yn dy enw di a'th haelioni rhyfeddol. **Amen.**





Gweddi wrth fynd ymaith, yn seiliedig ar Philipiaid 1:3-11 a gwaith cynllun Open Doors, Hull

Arglwydd Iesu Grist, gariad ymgawdoledig,
llanw ni ac anfon ni allan yn nerth dy Ysbryd
fel y bydd dy gariad yn cynyddu fwyfwy o'n mewn,
tuag at y dieithryn, y gwrthodedig, y bregus a'r ffoadur.
Gad inni dyfu mewn gwybodaeth a dirnadaeth, i ddeall beth sydd orau
fel y bydd inni fod yn ddidwyll a didramgwydd
pan ddeui drachefn
ac fel y byddwn yn gyflawn o ffrwyth cyfiawnder
sef croeso cynnes a bendith, ar gyfer pawb yn ddiwahân,
gan adlewyrchu haelioni rhyfeddol dy enw di.

Amen.

Gweddi wrth fynd ymaith, ar gyfer pob oed

Gwna ni, Arglwydd yn barod i weini.
Pob un ohonom, hen ac ifanc,
byr, tal...sut bynnag rai ydym!
Llanw ni â'th groeso cariadus
a gad inni fynd i ble bynnag mae arnat ti ein hangen,
i rannu dy gariad!

Amen!



4. Rhai cwestiynau a awgrymir ar gyfer ymateb a myfyrio

Efallai fod ein thema sef Cariad Sy'n Cynyddu, y darlenniadau o'r Beibl a'r stor au am gynllun Open Doors yn Hull yn ddigon ynddynt eu hunain i fyfyrio arnynt. Er hynny, mae'n bosibl y byddwch yn dymuno rhoi cyfle i bobl feddwl yn benodol sut y maent yn dymuno ymateb. Os felly, gallech rannu, argraffu neu daflunio'r cwestiynau a ganlyn ar ôl y bregeth, i bobl eu hystyried yn ystod ychydig funudau o dawelwch.

1. Ble, yn ystod yr Adfent hwn, rydych chi'n teimlo angen i dderbyn cariad – gan Dduw a/neu gan bobl?
2. Ym mha rannau o'ch bywyd y mae arnoch angen croesawu presenoldeb yr Iesu, sy'n llawn cariad ond yn ein hanesmwytho?
3. Ble tybed y mae'r Iesu'n eich annog chi i gynyddu fwyfwy mewn cariad tuag at y rhai sydd angen croeso neu gymorth ymarferol?
4. Sut hoffech chi gefnogi gwaith Open Doors yn Hull wrth iddynt gynnig croeso cynnes yno, ynghyd â gwaith ehangach y Genhadaeth ym Mhrydain, drwy wedd o a/neu gyfrannu trwy Offrwm yr Adfent eleni?

5. Syniadau creadigol ar gyfer ymateb mewn gweddi

Gallech ddefnyddio unrhyw un o'r syniadau hyn ar gyfer pawb gyda'i gilydd, gan baratoi'r eitemau angenrheidiol a'u gadael ar/o dan y seddau cyn y gwasanaeth neu eu rhoi i bawb yn unigol. Os yw'n well gennych, gallwch eu defnyddio i wneud gorsafoddedd gweddi.

Diolch o galon

Cyn y gwasanaeth: gwnewch neu prynwch ddigon o siapiau calon o bapur, cardfwrdd neu ddefnydd fel y gallwch roi un bob un i bawb yn y gynulleidfa. Defnyddiwch dyllwr neu nodwydd ac edau i osod darn bach o ruban neu linyr ynghlwm wrth bob un, fel y gellir ei hongian i wneud addurn Nadolig syml.

- Gofynnwch i bawb gau ei ddwylo am ei siâp calon a diolch i Dduw am ei rodd i ni yn Iesu Grist – cariad yn y cnawd, cariad yn llifo atom, yn dod i gael hyd i ni, yn trigo yn ein plith ac yn ein gwahodd i berthynas â Duw.
- Yna gofynnwch i bawb ddal ei siâp calon wrth ymyl ei galon ei hun. Awgrymwch eu bod yn gofyn i Dduw lenwi eu calon â mwy o gariad Crist a rhoi nerth iddynt fel y gallant barhau i gynnig cariad i eraill er mwyn iddynt hwythau dderbyn yn rhad gan Grist.
- Wedyn, awgrymwch fod pawb yn gwneud cwpan â'i ddwylo a dal y siâp calon allan arnynt. Gwahoddwch nhw i roi eu calonau er mwyn gwasanaethu eraill yn gariadus, gan drin calon a bywyd pobl eraill yr un mor ofalus ag y byddent yn dymuno cael eu trin eu hunain; trwy gyfrwng eu gweddau au a'u rhoddion i'r Genhadaeth ym Mhrydain, a thrwy ymgorffori'r cariad sy'n cynyddu wrth groesawu a gwasanaethu pobl anghenus ble bynnag y bônt.
- Yn olaf, gwahoddwch bawb i fynd â'r siâp calon adref i'w hongian ar y goeden Nadolig neu yn rhywle yn eu cartref lle byddant yn gallu ei gweld bob dydd am weddi yr Adfent ac yn ystod y Nadolig hefyd. Heriwch nhw i ddefnyddio'r siâp calon i'w hatgoffa, bob tro y byddant yn edrych arno, i offrymu gweddi fer ar i fwy a mwy o gariad gyrraedd a chynyddu drwy Maryam, pawb yn Open Doors, Hull, a holl waith y Genhadaeth ym Mhrydain.

Yr Eglwys  Fethodistaidd





Gwedd au gan ddefnyddio d r

Bydd arnoch angen: digon o gwpanau papur i bawb yn y gynulleidfa gael un bob un; digon o dd r mewn jygiau i lenwi cwpan pawb; nifer o wirfoddolwyr; cynhwysydd mawr.

- Fel sydd fwyaf cyfleus, bydd angen i'r gwirfoddolwyr naill ai fynd o gwmpas i lenwi cwpanau pobl neu sefyll mewn 'gorsafoedd' i bobl ddod atyn nhw. Byddai 'gorsafoedd' yn arbennig o ystyrllon.
- Wrth i bobl dderbyn d r yn eu cwpanau, a/neu aros eu tro i gael d r, gwahoddwch nhw i ddiolch i Dduw yn eu calonau am y cariad helaeth a ddaw i ni drwy Iesu Grist, a ddaeth i chwilio amdanom ac a dywalltodd ei einioes drosom.
- Pan fydd pawb wedi cael d r, gwahoddwch nhw

i edrych ar y d r sydd yn eu cwpan ac yn holl gwpanau pawb. Cewch annog pawb i ddiolch i Dduw ei fod yn llenwi a galluogi pob aelod o'r Corff i gludo cariad a'i arllwys allan mewn gwahanol ffyrdd.

- Wedyn, gwahoddwch bawb i gymryd llymaid bach o'r d r sydd ganddo yn ei gwpan, gan ddychmygu'r holl baneidiau a diodydd eraill sy'n cael eu paratoi a'u gweini i bobl yn Open Doors, Hull, pobl sy'n dyheu am groeso. Cewch eu hannog i roi diolch am bob cwpan a gynigir fel symbol o'r croeso hael sy'n cael ei rannu drwy'r prosiect hwn a gwedd o am fendith Duw a welir ar ffurf cyflenwadau cyson i'r staff a'r gwirfoddolwyr, fel y gallant barhau i gynyddu fwyfwy mewn cariad drwy ffyrdd ymarferol.

Gwedd au llythyr serch

Bydd arnoch angen: pin ysgrifennu a cherdyn Nadolig ar gyfer pob unigolyn ac amlen fawr.

- Eglurwch, yn union fel y gwedd odd Paul dros yr eglwys yn Philipi ac yr ysgrifennodd atynt gan anfon ei wedd au i'w hannog, felly hefyd yr ysgrifennodd John Wesley at William Wilberforce. Heddiw rydych i gyd yn mynd i wneud yr un peth ar gyfer Open Doors, Hull – y prosiect o eiddo'r Genhadaeth ym Mhrydain yr ydym yn canolbwyntio arno eleni.
- Dangoswch i bawb yr amlen fawr y byddwch yn ei defnyddio i anfon eu gwedd au a'u geiriau o anogaeth i Hull.

- Gwahoddwch bobl i ysgrifennu gweddi fer, yn dathlu, diolch neu erfyn ar Dduw i ddefnyddio'r staff, y gwirfoddolwyr a/neu y bobl sy'n dod i Open Doors, Hull, ar eu cerdyn Nadolig.
- Casglwch y rhain gan offrymu gweddi a/neu gwahoddwch bobl i ddod â nhw ymlaen, fel sydd orau yn eich amgylchiadau chi, nes bydd gennych amlen dew yn llawn o wedd au. Dywedwch weddi uwchben yr amlen ac i ofyn i'r cardiau galonogi'r rhai sy'n eu derbyn yn Open Doors yn ogystal â bod yn offrwm i Dduw.





Gwedd au Paned o De

Bydd arnoch angen: mat croeso, glôb neu fap o'r byd, digon o bensiliau neu binnau ysgrifennu a siapiau tebot wedi'u gwneud o bapur – digon i bawb gael o leiaf un tebot yr un.

- Rhowch y mat croeso a'r glôb yn y tu blaen neu rywle yn yr ochr lle gall pawb eu gweld.
- Rhowch siâp tebot ac ysgrifbin neu bensil i bawb a gofynnwch iddynt ysgrifennu gweddi syml, neu ysgrifennu ambell air neu dynnu llun, i gyfleu eu hawydd y bydd eich capel chi – a'r Eglwys Fethodistaidd gyfan – yn cynnig croeso gwell nag erioed i bobl sydd y tu allan i'n cymuned ffydd ni ein hunain, yn enwedig pobl sy'n dod i Brydain o wledydd eraill i geisio lloches.
- Gwahoddwch bawb sy'n fodlon i ddod â'u tebot ymlaen i'w roi ar y mat croeso neu yn agos at y mat a'r glôb, yn arwydd eu bod am chwarae eu rhan yn hyn – drwy wedd o, drwy gyfrannu a thrwy groesawu eraill.

6. Emynau

843 A glywaist ti waedd yr anghenus

841 Agor di ein llygaid, Arglwydd

866 Anfonodd Iesu fi

839 Arglwydd Iesu, llanw d'Eglwys

38 Cariad Tri yn Un

11 Corona'n hoedfa ar hyn o bryd

494 Cymer, Iesu, fi fel 'rydwyf

849 Deui atom yn ein gwendid

837 Dwed, a flinaist ar y gormes

372 Dwylo ffeind oedd dwylo

199 Dyma gariad, pwy a'i traetha

673 Fy ngorchwyl yn y byd

282 Gad in fod yn olau clir i'r cenhedloedd

731 Gariad dwyfol uwch bob cariad

738 Gwrando, Iesu, ar fy ngweddi

281 Hedd sy'n llifo fel yr afon

169 Mae addewidion melys wledd

870 Mae Iesu Grist yn aros

280 Mae rhwydwaith dirgel Duw

453 O ddirgelwch mawr duwioldeb

301 O Grist, Ffisigwr mawr y byd

805 Rho imi nerth i wneud fy rhan

469 Rhown foliant o'r mwyaf

573 Ysbryd y gwirionedd, tyred





7. Rhai meddyliau a syniadau eraill, cysylltiadau ac adnoddau

Gariad dwyfol uwch pob cariad

Mae emyn ysbrydoledig Charles Wesley, a gyfieithwyd gan Gwilym R. Tilsley (Rhif 731 yn *Caneuon Ffydd*) yn cyffwrdd ar nifer o'r themâu sydd i'w gweld yn ein prif ddarlleniad sef Philipiad 1:3-11 a byddai'n ddewis da o emyn ar gyfer eich gwasanaeth.

Gallech hefyd ystyried rhoi amser yn ystod y gwasanaeth, nid yn unig i ganu'r emyn hwn ond hefyd i bobl cael cyfle i fyfrio ar y geiriau. Gallech eu gwahodd

i'w darllen yn araf gan wedd o pob llinell cyn canu. Neu, gallech gael rhywun i ganu'r emyn – neu wrando ar recordiad o lais yn ei ganu – yn ystod yr amser y bydd y gynulleidfa'n edrych ar y cwestiynau ar gyfer myfyrdod. Neu, yn syml iawn, caniatewch amser i bawb feddwl yn weddigar beth y gall ei wneud, yn dilyn popeth a glywyd, cyn y gweddau o eiriolaeth a/neu yr offrwm.

Hull, Wesley a Wilberforce

Hull, cartref y prosiect yr ydym yn canolbwyntio arno sef Open Doors, yw dinas diwylliant y DG ar hyn o bryd, a bydd yn parhau i gael yr anrhydedd hon nes daw hi'n dro dinas Coventry yn 2021. Efallai yr hoffech feddwl am y modd y dethlir gwahanol ddiwylliannau wrth i wahanol genhedloedd ddod ynghyd drwy yr hyn y mae Open Doors yn ei wneud.

Bu John Wesley yn Hull droeon ac yno hefyd yr oedd cartref William Wilberforce, a gafodd anogaeth gan Wesley i weithio er mwyn diddymu caethwasiaeth. At y gwleidydd yr ysgrifennodd Wesley ei lythyr olaf, pan oedd yn 88 oed, chwe diwrnod yn unig cyn ei farw. Meddai ynddo:

“Onid yw Duw wedi dy godi ar gyfer yr union beth hwn, fe gei dy lethu gan wrthwynebiad dynion a diafoliaid. Ond os yw Duw o dy blaid, pwy all fod i'th erbyn? A ydynt i gyd yn gryfach na Duw? Paid â blino yn gwneud daioni! Dos ymlaen, yn enw Duw ac yn nerth ei allu, nes bydd hyd yn oed caethwasiaeth America (y mwyaf ffiaidd a fu erioed dan haul) yn diflannu o'r golwg.”

Ni wyddom yn iawn beth oedd dylanwad y llythyr hwn o anogaeth, a'r weddi yn ddi-os a ddeuai gyda'r llythyr, o ran cymell Wilberforce i ddal ati â'i waith hollbwysig. Yn union fel Paul a'r Philipiad, roedd y llythyr hwn yn llawn cariad, gweddi ac anogaeth gan ysbrydoli gwybodaeth a dirnadaeth mewn rhan arall o Gorff Crist.

Mae Open Doors, Hull, yn parhau yn yr un olyniaeth â Wilberforce gan sefyll dros werth pob unigolyn a wnaed ar lun a delw Duw, a chrosawu dieithriaid o bob rhan o'r byd i fyw yn Hull gydag urddas a chariad.

Pwy a yr pa wahaniaeth a wnaiff ein gweddi ni, ein hanogaeth a'n cefnogaeth i Open Doors a phrosiectau eraill tebyg o eiddo'r Genhadaeth ym Mhrydain? A'r dylanwad hwnnw yn cyrraedd nid yn unig rai unigolion ond hefyd bobl yr Eglwys Fethodistaidd gyfan a llawer o bobl eraill yn y gwledydd hyn.





Adnoddau eraill allai fod o gymorth a gwybodaeth am ymgyrchoedd

Ar ôl clywed rhai o'r stor au am Open Doors, Hull, ac ystyried themâu cariad yn cynyddu a chroesawu dieithriaid anghenus yng ngwasanaeth Offrwm yr Adfent eleni, efallai yr hoffech chi a'ch capel ystyried dysgu mwy am y cwestiynau ehangach sy'n ymwneud â cheiswyr lloches a ffoaduriaid ym Mhrydain heddiw. Efallai hefyd yr hoffech ymgyrchu ar y materion hyn.

Os felly, mae gan y Cyd-dîm Materion Cyhoeddus adnoddau ardderchog sydd i'w cael yn :

www.jointpublicissues.org.uk/issues/asylum-and-migration/

Yma hefyd gallwch weld y ffilm wych *A Very British Nativity*, lle dychmygir bod Mair a Joseff wedi cyrraedd y Deyrnas Gyfunol.

Ewch **www.jointpublicissues.org.uk/issues/averybritishnativity/**

neu **www.jointpublicissues.org.uk/prepare-ye-the-way/**

i weld y ffilm ac adnoddau eraill.

